

# AELODAU'R GRŴP CYNGHORI I DDYSGWYR

## GWYBODAETH

**Ydych chi'n 14-21 oed, ac mewn addysg yng Nghymru? Eisiau helpu i ddylanwadu ar gymwysterau yn y dyfodol? Rydym yn recriwtio aelodau ar gyfer ein Grŵp Cynghori newydd i Ddysgwyr – *dyma sut i gymryd rhan***

### Pwy ydyn ni?

Ni yw'r sefydliad annibynnol sy'n rheoleiddio cymwysterau yng Nghymru. Rydym yn sicrhau bod byrddau arholi (sefydliadau sy'n creu ac yn asesu cymwysterau) yn dilyn ein rheolau fel bod cymwysterau'n cael eu hasesu'n deg, a'u bod yn rhoi'r wybodaeth a'r sgiliau sydd eu hangen ar ddysgwyr ar gyfer y dyfodol.

### Y Grŵp Cynghori i Ddysgwyr

Rydym yn sefydlu Grŵp Cynghori i Ddysgwyr a fydd yn ein helpu i siarad â dysgwyr a deall yr hyn sydd ei angen arnynt gennym ni. Rydym am i aelodau'r grŵp ein herio, yn ogystal â'n cefnogi yn ein gwaith, i'n helpu i roi'r wybodaeth sydd ei hangen ar ddysgwyr am gymwysterau.

Bydd y grŵp yn cynnwys 10-14 o ddysgwyr, a fydd yn rhan o'r grŵp am ddwy flynedd.

**Dylai'r Aelodau fod:**

- rhwng 14 a 21 oed
- mewn addysg ac astudio ystod o gymwysterau (gan gynnwys cymwysterau galwedigaethol, TGAU, UG a Safon Uwch a Bagloriaeth Cymru)
- o wahanol fathau o gefndiroedd a lleoliadau addysg (fel colegau, ysgolion, ymgeiswyr preifat), ac yn cynnwys gwahanol fathau o ddysgwyr (fel dysgwyr cyfrwng Cymraeg a'r rhai ag Anghenion Dysgu Ychwanegol).

Byddwn yn recriwtio aelodau o bob rhan o Gymru. Cyn y cyfarfod cyntaf, byddwn yn cynnal sesiwn 'Croeso' i'r grŵp, lle gall aelodau ddod i adnabod ei gilydd a dysgu mwy am y grŵp.

## Sut a phryd y byddwn yn cyfarfod

Cynhelir ein cyfarfodydd grŵp ar-lein, gan ddefnyddio Microsoft Teams neu Zoom, y tu allan i oriau ysgol a choleg arferol.

Gofynnwn i chi ymrwymo i'r cyfarfod 'Croeso' (23 Mawrth), a thri 'phrif' gyfarfod eleni. Cynhelir y prif gyfarfod cyntaf ar 29 Mawrth, a bydd y lleill yn cael eu cynnal ym mis Mai a mis Hydref 2021.

O bryd i'w gilydd, efallai y byddwn yn gofyn am ddal i fyny â'r grŵp, os oes angen mwy o amser arnom i drafod gweithgareddau. Byddai'r cyfarfodydd hyn yn ddewisol, er ein bod yn eich annog i ymuno â nhw fel y gallwch gymryd rhan mewn darnau newydd o waith a dal i fyny ag aelodau eraill.

## Ymddiried

Rydym am i aelodau'r grŵp fod yn onest, a dweud wrthym beth maen nhw'n ei deimlo mewn gwirionedd am y materion sy'n effeithio ar gymwysterau a dysgwyr yng Nghymru.

## Sgiliau, gwybodaeth a phrofiad

Byddwn yn recriwtio aelodau'r Grŵp Cynghori dysgwyr drwy gystadleuaeth agored.

Rydym am i aelodau'r grŵp ddangos i ni eu hymrwymiad a'u parodrwydd i'n helpu i ddatrys problemau. Rydym yn chwilio am ystod o sgiliau, ond byddwn am weld tystiolaeth o sgiliau cyfathrebu da, enghreifftiau o waith tîm a menter, yn ogystal ag ymwybyddiaeth o bwysigrwydd cymwysterau wrth helpu dysgwyr i symud ymlaen.

## Sut i wneud cais

**Â diddordeb?** Gallwch wneud cais i ymuno drwy lenwi ffurflen gais fer neu anfon fideo byr atom, gan ddweud wrthym pam y byddech yn gwneud aelod gwych o'r Grŵp Cynghori Dysgwyr.

Y dyddiad cau ar gyfer ceisiadau yw **7 Mawrth 2021.** Byddwn yn dweud wrth bob ymgeisydd a ydynt yn llwyddiannus ai peidio, ac os cewch eich dewis, byddwn hefyd yn cysylltu â'ch ysgol neu goleg i roi gwybod iddynt.

## Rhagor o wybodaeth

Gallwch ddarllen mwy am ein gwaith yn **www.cymwysteraucymru.org**